

**MOLD TOWN COUNCIL
CYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804



www.moldtowncouncil.org.uk

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

22 Ionawr 2021

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Gofynnir ichi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm** ar **dydd Mercher 27 Ionawr, 2021** trwy gyfrwng fideo-gynadledda Zoom.

Yn ddiffuant,

A handwritten signature in blue ink, appearing to be 'A. Jones', is written over a faint, illegible printed name.

Y Clerc a Swyddog Cyllid

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O FUDD

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd y gwyddys amdanynt mewn eitemau ar yr agenda

3. CYHOEDDIADAU'R MAER

4. COFNODION

4.1 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, Gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2020 (ynghlwm)

4.2 Derbyn a nodi Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2020 ac ar 18 Ionawr 2021 (ynghlwm)

5. GWELLIANNAU I STRYD FAWR YR WYDDGRUG – YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

Ystyried ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i wneud y Stryd Fawr yn system unffordd barhaol o'r gogledd i'r de. Bydd Niall Waller, Rheolwr Gwasanaeth – Menter ac Adfywio, Cyngor Sir y Fflint yn cyflwyno'r mater ac yn derbyn ymholiadau.

6. GWELLIANNAU I ORSAF BYSIAU YR WYDDGRUG

Ystyried a rhoi sylwadau ar gynnydd a chynigion wedi'u diweddarau fel y'u cyflwynwyd gan Mike Eastwood, Swyddog Technegol, Gwasanaethau Stryd a Chludiant

7. CYDADRODDIAD Y SWYDDOGION BUSNES AC ADFYWIO / DIGWYDDIADAU AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Derbyn cydadroddiad y Swyddogion ar y datblygiadau diweddaraf (ynghlwm)

8. CYLLIDEB 2021/22

Ystyried yr adroddiad cyllideb sydd ynghlwm fel y'i cymeradwywyd gan Is-grŵp y Gyllideb ar 14 Rhagfyr, 2020 ac Adolygiad Trydydd Chwarter y Flwyddyn (amgaeir adroddiad ac atodiadau)

9. CYMORTH ARIANNOL

Roedd Aelodau'r Panel Cymorth Ariannol wedi derbyn copiâu o geisiadau gan Glerc y Dref ac nad oedd yr un o'r ceisiadau wedi bodloni'r meini prawf y cytunwyd arnynt i'w hystyried ar gyfer cymorth grant. O ystyried y gefnogaeth a'r gyllideb ychwanegol a roddwyd eisoes i sefydliadau eraill ers pandemig Covid-19, nid oedd Aelodau'r Panel yn gallu gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer cymorth ariannol. Ers hynny mae cais hwyr wedi dod i mewn o'r Siop Gymunedol am rywfaent o gymorth ariannol. Gofynnir i'r Cyngor ystyried hwn.

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL AC ARCHWILIAD ALLANOL 2019/20

Mae'r Archwilydd Allanol, BDO, bellach wedi cwblhau'r archwiliad allanol o gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer y flwyddyn 2019/20 (amgaeir copi o'r adroddiad).

11. HYSBYSIAD YNGHYLCH Y PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Nodi'r adroddiad sydd ynghlwm

12. EITEMAU GOHEBIAETH

Derbyn llythyr ymateb oddi wrth Steve Jones, Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Chludiant, mewn ymateb i lythyr ffurfiol y Cynghorydd Geoff Collett yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor y gymuned, Datblygu ac Adfywio, mewn perthynas â:

(a) Gwelyau blodau;

- (b) Glanhau'r Orsaf Bysiau; a
- (c) Cŵn yn rhedeg yn rhydd o fewn y gerddi addurnol

13. CYFARFODYDD A FYNYCHWYD

Er mwyn i Aelodau roi adroddiad i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth y maent wedi ei chael gan gyrff allanol

14. CYFRIFON / TALIADAU

Cymeradwyo'r drefnlen atodedig sy'n dangos y cyfrifon y gwnaed trefniadau i'w talu – Mis 8 a 9 gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau cynghorau lleol

SYLWCH:

Caiff aelodau'r wasg a'r cyhoedd wyllo'r cyfarfod hwn ar y sgrin (ond ni chânt gymryd rhan) trwy drefniant ymlaen llaw gyda Chlerc a Swyddog Cyllid y Dref.